

## **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol**

### **Trosolwg Hanesyddol o Benderfyniadau'r Panel ar Gyflogau Aelodau**

Cafodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ei sefydlu yn 2008 i fod yn gorff cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 22 prif awdurdod Cymru. Yn wreiddiol roedd yn pennu uchafswm cyflogau a chafodd bwerau llawn i bennu cyflogau go iawn a thaliadau eraill o dan Fesur 2011. Rhoddir cap ar nifer y deiliaid Uwch-swyddi a ganiateir ym mhob awdurdod, er bod gweithdrefnau ar gael i godi'r cap os derbynnir achos dros wneud hynny. Mae'r papur hwn yn rhoi hanes penderfyniadau allweddol y Panel dros 8 mlynedd gan eu cymharu â'r dewisiadau posibl eraill. Mae dewisiadau i'r dyfodol yn cael eu trafod yn fras.

### **1. Dadansoddiad o Gyflog Sylfaenol Aelodau 2013-2020**

1.1 Dim ond yr uchafsymiau a bennwyd yn Adroddiadau Blyneddol 2009 a 2010: £13,356 a £13,868 yn y drefn honno. Mae dadansoddiad yn Adroddiad 2010 yn dangos bod 12 o'r 22 cyngor wedi talu'r uchafswm i aelodau yn 2009 a disgynnodd hyn i 7 cyngor yn 2010. £12,837 oedd y cyflog sylfaenol cyfartalog a gafodd i dalu i aelodau'r 15 cyngor a oedd yn talu ffigur is yn 2010 – mae hynny £1031 yn is na'r uchafswm a oedd yn cael ei ganiatáu gan y Panel (£12,075 oedd y cyflog isaf a gafodd ei dalu). Ar ben hynny, roedd y Panel wedi etifeddu system o daliadau a oedd yn disgwyl i aelodau ddefnyddio eu cydnabyddiaeth ariannol bersonol a fyddai'n cael ei threthu i dalu am nifer o'u costau cymorth uniongyrchol. Roedd Mesur 2011 yn newid pwerau'r Panel o bennu'r uchafswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau i bennu'r ffigur go iawn a fyddai'n cael ei dalu (oni bai fod aelodau unigol yn dewis cael ffigur is). Mae'r adroddiad hwn felly'n dechrau yn 2012, ac yn dadansoddi'r gwir ffigurau a bennwyd i'w talu i aelodau dros yr 8 mlynedd olynol.

<b>TABL 1 – PENDERFYNIADAU'R PANEL AR GYFLOG SYLFAENOL AELODAU 2012-20</b>		
<b>Blwyddyn</b>	<b>Cyflog Sylfaenol (£)</b>	<b>% y cynnydd</b>
<b>2013</b>	13,175	0
<b>2014</b>	13,175	0
<b>2015</b>	13,300	0.95%
<b>2016</b>	13,300	0
<b>2017</b>	13,300	0
<b>2018</b>	13,400	0.75%
<b>2019</b>	13,868	2.1%
<b>2020</b>	14,218	2.5%

1.2 Cafodd ffigur 2010 sef £13,868 ei gyfrifo fel tair rhan o bump o gyflog gros canolrifol Cymru gyfan yr ASHE (amcangyfrifwyd bod hyn yn cynrychioli llwyth gwaith aelodau ar

feinciau cefn cyngor, gan ystyried cyfraniad gwirfoddol nad oedd yn cael ei gyfrif at waith ward a gweithgareddau tebyg). Cafodd ei ostwng 5.0% i £13,175 yn 2011, ar ôl symud o bennu'r uchafswm i bennu'r cyflog sylfaenol. Mewn gwirionedd, roedd y Panel wedi symud oddi wrth y pwynt cyfeirio cyflog canolrifol yn ystod y flwyddyn ar ôl ei greu ac mae'r bwch wedi tyfu ymhellach ym mhob blwyddyn olynol - dros y 7 mlynedd ganlynol mae Cyflog Canolrifol Cymru wedi codi 16.8% o'i cymharu â chynnydd sylfaenol y Panel o 6.4% dros yr un cyfnod.

- 1.3 Roedd adroddiad 2009 yn dileu'r elfen costau cymorth o'r lwfans sylfaenol blaenorol a oedd yn cael ei drethu er mwyn bod yn fwy tryloyw. Roedd hyn yn pennu am y tro cyntaf ei bod yn rhaid i gynghorau ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn i aelodau allu cyflawni eu dyletswyddau, fel costau TG, ffonio a phostio, heb i hynny fod yn gost i'r aelod. Fodd bynnag, mae hi wedi cymryd nifer o flynyddoedd i roi'r newid hwn ar waith yn llawn. O 2020 ymlaen cafodd y ddyletswydd ei chynnwys ei bod yn rhaid i Awdurdodau dalu am gostau mesurau i ddiogelu aelodau pan fo angen oddi wrth ymosodiadau corfforol neu fygythiadau, boed hynny'n gorfforol neu drwy gyfryngau cymdeithasol.
- 1.4 Mae Tabl 2 yn dangos penderfyniadau'r Panel ar gyflog sylfaenol dros 8 mlynedd gan eu cymharu â mesurau a meincnodau eraill. Sef: Mynegai Prisiau Manwerthu, Mynegai Prisiau Defnyddwyr, Cyflog Canolrifol Cymru Gyfan, graddfa'r NJC, Cyflog Byw, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, pwynt cyfeirio'r NJC yw % y cynnydd i bwynt 27 ar y golofn gyflog ar y raddfa gyflog. Ar gyfer pob dewis, mae'r un man cychwyn (y cyflog a bennwyd gan y Panel yn 2013 sef £13,175) wedi cael ei ddefnyddio gyda'r ganran a ddyfarnwyd i bob un o'r elfennau cymharu dros yr 8 mlynedd. Ffigurau tybiannol yw'r rhain sy'n dangos effaith defnyddio'r cynnydd canrannol gwahanol. (Mae'r ffigurau go iawn sy'n berthnasol i bob mesur wedi cael eu cynnwys yn y Nodiadau sydd ar ddiwedd yr adroddiad hwn)

<b>TABL 2 - MESURAU A MEINCNODAU ERAILL AR GYFER CYFLOG SYLFAENOL (gwaelodlin 2012)</b>								
<b>Blwyddyn</b>	<b>Cyflog sylfaenol y Panel (£)</b>	<b>RPI</b>	<b>CPI</b>	<b>Canolrif Cymru</b>	<b>NJC SP 27</b>	<b>Cyflog Byw</b>	<b>ACau</b>	<b>ASau</b>
<b>2013</b>	<b>13,175</b>	13,175	13,175	13,175	13,175	13,175	13,175	13,175
<b>2014</b>	<b>13,175</b>	13,531	13,518	13,702	13,267	13,425	13,175	13,307
<b>2015</b>	<b>13,300</b>	13,747	13,720	13,784	13,321	13,828	13,175	13,440
<b>2016</b>	<b>13,300</b>	13,912	13,734	13,922	13,587	14,257	13,175	14,824
<b>2017</b>	<b>13,300</b>	14,259	13,775	14,297	13,723	15,326	13,306	15,017
<b>2018</b>	<b>13,400</b>	14,845	14,175	14,441	13,860	15,970	15,662	15,227
<b>2019</b>	<b>13,686</b>	15,245	14,515	14,758	14,137	16,672	15,991	15,501
<b>2020</b>	<b>14,068</b>	15,702	14,805	15,569	14,505	17,489	16,550	15,920

- 1.5 Mae Tabl 3 yn rhoi dadansoddiad o'r cynnydd canrannol sy'n cael ei gynrychioli yn Nhabl 2. Mae'r golofn olaf yn rhoi cyfanswm pob cynnydd.

<b>TABL 3 – CYNNYDD CANRANNOL YN ÔL MESURAU NEU FEINCNO DAU ERAILL</b>									
<b>Blwyddyn</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>	<b>2020</b>	<b>CYFANSWM 7 mlynedd gyda'i gilydd</b>
<b>Cyflog Sylfaenol y Panel</b>		<b>0</b>	<b>1.0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0.8</b>	<b>2.1</b>	<b>2.5</b>	<b>6.4%</b>
<b>RPI</b>		2.7	1.6	1.2	2.5	4.1	2.7	2.0	18.2%
<b>CPI</b>		2.6	1.5	0.1	0.3	2.9	2.4	2.0	12.4%
<b>Canolrif Cymru</b>		4.0	0.6	1.0	2.7	1.0	2.2	5.5	16.8%
<b>NJC SP 27**</b>		0.7	0.4	2.0	1.0	1.0	2.0	2.6	10.0%
<b>Cyflog Byw</b>		1.9	3.0	3.1	7.5	4.2	4.4	4.9	32.7%
<b>Cyflog ACau</b>		0	0	0	1.0	17.7	2.1	3.5	25.6%
<b>Cyflog ASau</b>		1.0	1.0	10.3	1.3	1.4	1.8	2.7	20.8%

\*\*Roedd SP27 wedi newid i SP20 yn 2019

- 1.6 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mesur cyflogau gros canolrifol yr ASHE bob mis Hydref. Mae'n amrywio ar draws prif awdurdodau Cymru. Mae hefyd wedi amrywio rhwng ardaloedd dros y blynyddoedd diwethaf. £535 yw ffigur wythnosol diweddaraf 2019 ar gyfer Cymru. Mae cyflog canolrifol wythnosol 2019 Merthyr yn £468 ond mae'n £613 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn 2016 roedd y ffigur uchaf yn sir y Fflint a'r isaf ym Mlaenau Gwent a, chyn hynny, Powys.
- 1.7 Mae penderfyniadau olynol y Panel i gynyddu, i ostwng ac i rewi cyflogau wedi cael eu gwneud ar sail canfyddiadau o dderbynioldeb ymysg y cyhoedd, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd yng nghyflogau staff Awdurdodau Lleol dros yr un cyfnod (mewn gwirionedd, gan ddiystyru'r cynnydd cynyddrannol a gafodd y rhan fwyaf o staff, roedd cynnydd yr NJC yn 10.0% o'i gymharu â chynnydd o 6.4% gan y Panel dros 7 mlynedd - gweler Tabl 3). Mewn trafodaethau uniongyrchol gydag aelodau roedd nifer yn sôn eu bod yn amharod i dderbyn cynnydd y Panel oherwydd eu bod cymharu eu sefyllfa â sefyllfa'r swyddogion roeddent yn gweithio gyda nhw.
- 1.8 Roedd agwedd aelodau Awdurdodau Lleol ynghylch derbynioldeb hefyd wedi dylanwadu ar ystyriaethau'r Panel. Roedd y ffaith bod unigolion yn dewis peidio â derbyn cynnydd mewn blwyddyn benodol yn brawf o hynny. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gan y tri phrif awdurdod, Merthyr, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, gyda'i gilydd, 97 o ddeiliaid cyflog sylfaenol a 76 o ddeiliaid uwch-gyflog a oedd wedi dewis peidio â derbyn eu cyflogau llawn. Rhyngddynt mae gan yr 19 awdurdod arall 20 o ddeiliaid cyflog sylfaenol a 10 o ddeiliaid uwch-gyflog sydd wedi dewis peidio â derbyn eu cyflogau llawn (Gweler atodiad 1). Rhywbeth dros dro'n aml yw gwrthod derbyn y

cyflogau a bennir gan y Panel, gan fod yr aelodau'n derbyn y cynnydd mewn blynyddoedd dilynol – felly efallai mai gohirio yn hytrach na gwrthod yw hyn. Efallai fod rhywfaint o'r data'n rhoi camargraff oherwydd eu bod yn cynnwys aelodau nad oeddent wedi hawlio eu cyflog llawn oherwydd eu bod wedi gadael y cyngor hanner ffordd drwy'r flwyddyn.

1.9 Dros nifer o flynyddoedd mae'r cyrff sy'n gyfrifol am bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol hefyd wedi gorfod pwysu a mesur canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch derbynioldeb. Mae hyn wedi golygu bod cyflogau wedi disgyn ar ei hôl hi ac wedyn bod angen addasiadau mawr i ddal fyny - yn fwyaf diweddar yn 2015 ar gyfer Aelodau Seneddol ac yn 2017 ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Yn dilyn hynny mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (IRB) wedi mabwysiadu mynegeio blynyddol ar sail enillion canolrifol gros yr ASHE (mis Mawrth i fis Mawr y flwyddyn flaenorol). Yn 2013, roedd yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol wedi ymgynghori ynghylch cynnig (ar ôl y cynnydd sylweddol) i "gysylltu'r newidiadau i dâl Aelodau Seneddol â thâl eu hetholwyr ar draws y wlad". Yn dechnegol, cyfeirir at weithredu'r cynnig hwn fel AWE-KAC3 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y mis Hydref blaenorol i'w dalu o fis Ebrill bob blwyddyn. (Enillion Wythnosol Cyfartalog - dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 3 mis o gyfanswm tâl wythnosol, Mai-Gorffennaf, o'i gymharu â'r un 3 mis yn y flwyddyn flaenorol).

1.10 Mae'r dadansoddiad hwn wedi cynnwys y cynnydd a gynigir yn 2020 sef £350 ar y cyflog sylfaenol fel y cytunwyd arno ar gyfer 2020. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol o 2.5% dros 2019 (£13,868 i £14,218). Pennir y byddai deiliaid uwch-gyflog ddim ond yn elwa o'r cynnydd sylfaenol o £350. Byddai'r cynnydd canrannol ar gyfer deiliaid uwch-gyflog rhwng 0.7 a 2.3%. Roedd yr Uwch-gyflogau yn Adroddiadau Blynyddol 2009 a 2010 y Panel hefyd yn uwch o lawer na'r lefelau cyfredol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyflog sylfaenol a'r uwch-gyflog wedi lleihau dros yr 8 mlynedd diwethaf, ond nid yn bennaf oherwydd y cynnydd uwch i uwch-gyflogau (£800) a bennwyd yn Adroddiad Blynyddol 2019.

## 2 Dadansoddiad o Uwch-gyflogau 2013-2020

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Arweinydd	47,500	47,500	48,000	48,000	48,000	48,100	48,300	49,100	49,450
Dirprwy Arweinydd	33,460	33,460	33,500	33,500	33,500	33,600	33,800	34,600	34,950
Aelod Gweithredol	28,780	28,780	29,000	29,000	29,000	29,100	29,300	30,100	30,450
Cadeirydd/Arweinydd Grŵp	21,910	21,910	22,000	22,000	22,000	22,100	22,300	22,568	22,918
Arweinydd Grŵp	16,920	16,920	17,000	17,000	17,000	17,100	17,300	17,568	17,918
Pennaeth Din-esig	21,375	21,375	21,500	21,500	21,500	21,600	21,800	22,568	22,918
% y cynnydd	-8.7	0	1	0	0	0.2	0.4	1.7	0.7% i 2.3%

*\*Mae Band B wedi cael ei ddefnyddio mewn cyfrifiadau lle ceir mwy nag un band cyflog ar gyfer y swydd.*

## **2.1. Arweinwyr**

- 2.1.1 Mae'r ffigurau yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel rhwng 2012 a'i Adroddiad Blynyddol 2020 diweddaraf ar gyfer arweinwyr y 22 prif awdurdod yng Nghymru, mewn 3 band poblogaeth. Yn 2011 roedd y Panel wedi mabwysiadu meincnod Cyflog Blynyddol Canolrifol Cymru: x2.5 ar gyfer poblogaeth Band A; x2.25 ar gyfer Band B a x2 ar gyfer Band C.
- 2.1.2 Roedd dadansoddiad yn Adroddiad Blynyddol 2010 yn dangos mai dim ond 5 o'r 22 cyngor oedd yn talu'r uchafswm i arweinwyr.
- 2.1.3 Mae'r Panel o'r farn bod y swyddi hyn yn gyfwerth ag amser llawn, er nad ydynt yn swyddi 9-5, ond mae'n derbyn efallai fod gan y deiliaid swyddi hynny gyflogaeth arall hefyd. Nid yw'r Panel yn caniatáu i ddeiliaid swyddi gael cydnabyddiaeth ariannol am fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub na Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref. Mae'r Panel yn gyfrifol am y rheini hefyd. Mae gan rai arweinwyr swyddi eraill sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) neu ar fyrddau iechyd Cymru neu ar gyrff cyhoeddus eraill. Mae'r cyrff hyn y tu hwnt i gwmpas y Panel.
- 2.1.4 Ceir tystiolaeth nad yw rhai deiliaid swyddi'n hawlio eu cyflog yn llawn, nad ydynt yn hawlio treuliau penodol y mae ganddynt hawl iddynt, a/neu eu bod yn rhoi rhoddion sylweddol i elusennau.

## **2.2. Dirprwy Arweinwyr**

- 2.2.1 Mae'r ffigurau yn Nhabl 2 yn cynrychioli penderfyniadau'r Panel ar gyfer Dirprwy Arweinwyr dros yr un cyfnod. 10% yn fwy nag Aelodau Gweithredol oedd y cyfrifiad cychwynnol. Cafodd 70% o gyflog arweinydd ei bennu fel ffigur meincnod yn 2011.
- 2.2.2 Roedd dadansoddiad 2010 yn dangos bod 5 cyngor yn talu'r uchafswm a oedd yn cael ei ganiatáu gan y Panel ac nid oedd 3 chyngor yn talu unrhyw uwch-gyflog am y swydd hon.
- 2.2.3 Mae'r Panel o'r farn bod y swyddi hyn yn gyfwerth ag amser llawn, ond mae'n derbyn efallai fod gan ddeiliaid swyddi gyflogaeth arall hefyd. Nid yw'r Panel yn caniatáu i ddeiliaid swyddi gael cydnabyddiaeth ariannol am fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub na Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref. Mae'r Panel yn gyfrifol am y rheini hefyd. Efallai fod gan rai ohonynt swyddi eraill sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol mewn cyrff cyhoeddus sydd y tu hwnt i gwmpas y Panel.
- 2.2.4 Ceir tystiolaeth nad yw rhai deiliaid swyddi'n hawlio eu cyflog yn llawn, nad ydynt yn hawlio treuliau penodol y mae ganddynt hawl iddynt, a/neu eu bod yn rhoi rhoddion sylweddol i elusennau.

### **2.3. Aelodau Gweithredol**

- 2.3.1 Mae'r ffigurau yn Nhabl 3 yn dangos penderfyniadau'r Panel ar gyflogau Aelodau Gweithredol. 60% o gyflog arweinydd oedd cyfrifiad cyflog 2011.
- 2.3.2 Mae dadansoddiad 2010 yn dangos bod 7 o'r 22 cyngor wedi talu'r uchafswm cyflog a oedd yn cael ei ganiatáu gan y Panel i aelodau gweithredol - byddai 111 o 208 o unigolion wedyn wedi elwa petai eu cyngor wedi talu'r uchafswm.
- 2.3.3 Mae'r Panel o'r farn bod y swyddi hyn yn gyfwerth ag amser llawn, ond mae'n derbyn efallai fod gan ddeiliaid swyddi gyflogaeth arall hefyd. Nid yw'r Panel yn caniatáu i ddeiliaid swyddi gael cynabyddiaeth ariannol am fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub na Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref. Mae'r Panel yn gyfrifol am y rheini hefyd. Efallai fod gan rai ohonynt swyddi eraill sy'n rhoi cynabyddiaeth ariannol mewn cyrff cyhoeddus sydd y tu hwnt i gwmpas y Panel.
- 2.3.4 Ceir tystiolaeth nad yw rhai deiliaid swyddi'n hawlio eu cyflog yn llawn, nad ydynt yn hawlio treuliau penodol y mae ganddynt hawl iddynt, a/neu eu bod yn rhoi rhoddion sylweddol i elusennau.

### **2.4. Cadeiryddion**

- 2.4.1 Mae'r ffigurau yn Nhabl 4 yn dangos penderfyniadau'r Panel ar gyflogau Cadeiryddion pwyllgorau mewn prif awdurdodau. Cyn 2010, roedd cyflogau'n cael eu bandio fesul awdurdod yn ôl grwpiau poblogaeth ac roeddent yn wahanol rhwng pwyllgorau penodol.
- 2.4.2 Mae'r Panel yn rhagweld bod llwyth gwaith cadeirydd yn fwy o lawer na llwyth gwaith aelod ar y meinciau cefn. Fodd bynnag, mae llwyth gwaith rhai swyddi cadeirio'n amlwg yn drymach na'i gilydd.
- 2.4.3 Yn 2016, roedd y Panel wedi creu dwy lefel o daliadau, a oedd yn rhoi'r cyfle i gynghorau wahaniaethu rhwng y llwythi gwaith trymach ac ysgafnach. Nid oedd llawer yn defnyddio'r hyblygrwydd hwn ac roedd yn cael ei roi ar waith mewn ffordd anghyson, felly cafodd ei ddiddymu.
- 2.4.4 Mae awdurdodau'n cael penderfynu peidio â rhoi cynabyddiaeth ariannol i rai cadeiryddion ac yn cael penderfynu rhoi cynabyddiaeth ariannol i gadeiryddion eraill nad ydynt yn gyfrifol am faterion statudol.

### **2.5. Arweinwyr yr Wrthblaid**

- 2.5.1 Mae Tabl 5 yn dangos cynabyddiaeth ariannol y Panel i Arweinwyr prif grŵp yr wrthblaid. Mae'n rhaid i grwpiau o'r fath gynnwys o leiaf 10% o aelodau'r cyngor er mwyn bod yn gymwys i gael cyflog sy'n uwch na chyflog aelod ar y meinciau cefn. Yn wreiddiol roedd y swyddi hyn wedi cael eu bandio.
- 2.5.2 Yn ei Adroddiad Blynyddol yn 2012, cysylltodd y Panel y cyflog hwn â chyflog Cadeirydd.

## **2.6. Arweinwyr Grŵp**

2.6.1 Mae Tabl 6 yn dangos cydnabyddiaeth ariannol y Panel i Arweinwyr grwpiau eraill yr wrthblaid. Mae'n rhaid i grwpiau o'r fath gynnwys o leiaf 10% o aelodau'r cyngor er mwyn bod yn gymwys i gael cyflog sy'n uwch na chyflog aelod ar y meinciau cefn. Yn wreiddiol roedd y swyddi hyn wedi cael eu bandio.

## **2.7. Arweinwyr a Dirprwyon Dinesig**

2.7.1 Mae Tabl 7 yn dangos penderfyniadau'r Panel ynghylch cyflogau arweinwyr dinesig a'u dirprwyon. Mae nifer o awdurdodau'n dal i alw hyn yn lwfans dinesig.

2.7.2 Daeth y Panel yn gyfrifol am yr uwch-gyflogau hyn o dan Fesur 2011 a daeth ei benderfyniadau cyntaf i rym yn 2012. Cyn hynny roedd awdurdodau lleol yn gosod eu lwfansau eu hunain ar gyfer arweinwyr dinesig ac roedd cydnabyddiaeth ariannol yn amrywio'n eang ar draws Cymru.

2.7.3 Mae'n bosibl i gynghorau benderfynu peidio â rhoi cydnabyddiaeth ariannol am y swyddi hyn. Mae'n bosibl hefyd i gynghorau benodi Llywydd i gadeirio cyfarfodydd y Cyngor.

2.7.4 Yn wreiddiol roedd y bandiau'n ymwneud â bandiau'r boblogaeth, yn yr un modd ag uwch-gyflogau eraill, ond yn 2014 penderfynodd y Panel nad oedd maint y cyngor yn adlewyrchiad cywir o lwyth gwaith dinesig. Felly, yn dilyn ymgynghoriad, penderfynodd y gallai cynghorau gael yr hyblygrwydd i benderfynu pa fand i dalu eu harweinwyr dinesig, ar sail llwyth gwaith. Roedd hefyd yn caniatáu i arweinwyr dinesig a dirprwyon gael eu talu ar wahanol fandiau yn yr un awdurdod yn ôl eu llwythi gwaith cymharol tybiedig. Oherwydd nad oes llawer wedi defnyddio'r dull hwn, roedd y Panel wedi cael gwared â'r dull hyblyg hwn o bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol arweinwyr dinesig yn 2019.

2.7.5 Er bod y Panel yn glir mai bwriad cyflogau dinesig ydy bod yn gydnabyddiaeth ariannol (a drethir) am gyfrifoldebau, a bod gan bron i bob un sy'n dal swydd o'r fath ddyddiadur llawn iawn o ddiwyddiadau sydd ar ben eu dyletswyddau cyngor, mae'n ymddangos ei fod yn ddisgwyliad cyffredin y bydd y taliadau hyn yn talu am roddion achlysurol a chostau dillad. Mae gan awdurdodau agweddau amrywiol at drafndiaeth ddinesig, rhoddion mwy, digwyddiadau dinesig a chefnogaeth ysgrifenyddol ond maent i bob golwg yn derbyn y costau cymorth sylfaenol hyn fel costau o gyllideb y cyngor yn hytrach na chyfrifoldeb yr unigolyn. Mae'n anrhydedd i'r rhan fwyaf o ddeiliaid swyddi dderbyn y rôl ac maent yn derbyn y ffaith y bydd eu blwyddyn y swydd, yn sicr fel cadeirydd/maer, yn golygu rhagor o gostau personol iddynt. Caiff rôl y cadeirydd/maer ei ystyried fel swydd amser llawn. Mae rôl y dirprwy yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod i'r llall (ac o bosibl o un flwyddyn i'r llall) ond mewn amgylchiadau arferol ni chaiff hon ei hystyried fel swydd amser llawn. (Gweler paragraffau 3.14 i 3.19 yn yr Adroddiad Blynyddol).

### 3. Crynodeb

- A. Mae'n rhaid i'r Panel gydbwyso canfyddiad y cyhoedd o dderbynioldeb cynyddu cydnabyddiaeth ariannol ar un llaw gyda lefelau tâl a gwahaniaethau sy'n erydu ar y llaw arall.
- B. Mae cyff cydnabyddiaeth ariannol tebyg eraill (y Bwrdd Taliadau Annibynnol a'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol) wedi wynebu'r un cyfyng-gyngor ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r ddau wedi dyfarnu taliad "dal i fyny" sylweddol ac wedyn wedi mabwysiadu dull meincnodi i sicrhau na fydd y broblem yn codi eto.
- C. Mae fforddiadwyedd, derbynioldeb a thegwch yn dermau goddrychol. Mae hi'n amlwg bod y cynnydd yng nghyflogau aelodau wedi disgyn ymhell y tu ôl i unrhyw fesurau tebyg eraill ers iddynt gael eu pennu gan y Panel ar y dechrau. Derbynioldeb oedd prif ffactor ystyriaethau blynyddol y Panel. O'r herwydd, mae'r Panel (yn ddieithriad? bob amser?) wedi dewis ffigur is na'r ffigur sy'n cael ei gefnogi gan ddadansoddiad o ffigurau tebyg perthnasol.
- D. Gallai'r Panel roi'r gorau i ddefnyddio Cyflog Canolrifol Gros Cymru yr ASHE fel meincnod dilys yn yr adroddiad blynyddol. Gallai chwilio am feincnod sy'n ymwneud â chyflogau aelodau etholaethau yng Nghymru fod yn ddull gweithredu dealladwy a chyfiawn. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael ei roi ar waith ers iddo gael ei fabwysiadu'n wreiddiol. Petai'r meincnod hwn wedi cael ei fabwysiadu a'i roi ar waith yn gyson, byddai cyflog aelod sylfaenol nawr dros £16,600. Mae dadansoddiad yr ASHE nawr yn dangos bod o dros 30% o wahaniaeth rhwng y cyflogau canolrifol uchaf ac isaf ar draws ardaloedd prif awdurdodau Cymru. Efallai ei bod hi'n briodol hefyd rhoi'r gorau i'r cysyniad o "ddisgownt gwasanaeth cyhoeddus" sydd â gwerth cyfyngedig - beth mae hyn yn ei gyfrannu at dderbynioldeb?
- E. Ac edrych i'r dyfodol, os ystyrir ei bod hi'n briodol mabwysiadu unrhyw feincnod ar gyfer addasiadau canrannol ar ôl unrhyw gynnydd "dal i fyny", gallai'r Panel fabwysiadu naill ai'r un dull â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol neu gyfraddau'r NJC. Byddai dull y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn defnyddio'r cynnydd canrannol a fesurwyd yn ystod blwyddyn flaenorol Cyflogau Canolrifol Gros yr ASHE (gan wahaniaethu o'r 3 rhan o 5 o'r tâl go iawn a oedd wedi cael ei fabwysiadu gan y Panel yn flaenorol). Byddai dull yr NJC yn defnyddio'r un gyfradd ag a ddefnyddir gyda staff llywodraeth leol sydd ar lefel cyflog debyg.
- F. Mae'n bosibl y gallai cyfaddawd i ddefnyddio dull sefydlog ar gyfer pennu'r cyflog sylfaenol olygu mabwysiadu mesur addasiad priodol fel egwyddor ond amrywio os bydd amgylchiadau eithriadol.
- G. Gellid dadlau nad yw dull y Panel ar gyfer Uwch-gyflogau mor hael, gan ddyfarnu dim ond cynnydd i elfen y gyfradd sylfaenol weithiau (fel y digwyddodd yn 2020 ond yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2019). Bydd hyn yn erydu rhywfaint ar y gwahaniaethau. Byddai'r dull gweithredu sy'n cael ei amlinellu ym mharagraff D yn awgrymu defnyddio'r gyfradd cynnydd gyda'r uwch-gyflogau â'r cyflogau sylfaenol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, fod y Panel yn credu bod hyn yn afresymol.
- H. Mae'r Panel yn croesawu sylwadau a syniadau ar y dadansoddiadau hyn.



#### 4. Nodiadau

a. Ffigurau RPI: (Mis Gorffennaf y flwyddyn berthnasol)

<i>Blwyddyn</i>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>
<b>% y cynnydd</b>	3.1	2.7	1.6	1.2	2.5	4.1	2.7	3.0

b. Ffigurau CPI: (Mis Mai y flwyddyn berthnasol)

<i>Blwyddyn</i>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>
<b>% y cynnydd</b>	2.8	2.6	1.5	0	0.3	2.9	2.4	2.0

c. Cynnydd canrannol staff Awdurdod Lleol - fel y cafodd ei fesur ar gyfer pwynt 27 ar y gyfradd gyflog yr NJC:

<i>Blwyddyn</i>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>
<b>% y cynnydd</b>	<b>0</b>	<b>0.7</b>	<b>0.43</b>	<b>2.05</b>	<b>1.0</b>	<b>1.0</b>	<b>2.0</b>	<b>2.6</b>
<b>Blynyddol</b>	22,958	23,188	23,288	23,698	23,935	24,174	24,657	25,295
<b>Yr awr</b>	11.90	12.02	12.07	12.29	12.41	12.53	12.81	13.14
<b>2/3</b>	13,775	13,913	13,973	14,219	14,361	14,504	14,794	15,177

d. Cyflogau Canolrif Cymru gyfan:

<i>Blwyddyn</i>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>
<b>Yr wythnos</b>	453	471	474	479	493	498	509	535
<b>Blynyddol</b>	23,563	24,499	24,655	24,915	25,643	25,904	26,476	27,828
<b>3/5</b>	14,137	14,699	14,793	14,949	15,386	15,542	15,885	16,696
<b>% y cynnydd</b>	0.4	4.0	0.6	1.1	2.9	1.0	2.2	5.5

e. Cyflog Byw: (ar sail 35 awr yr wythnos am 52 wythnos y flwyddyn)

<i>Blwyddyn</i>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>
<b>yr awr</b>	6.19	6.31	6.50	6.70	7.20	7.50	7.83	8.21
<b>Blynyddol</b>	11,266	11,488	11,833	12,197	13,108	13,654	14,255	14,947
<b>Cynnydd %</b>	0	1.9	3.0	3.1	7.5	4.2	4.4	4.9

d. Dadansoddiad o'r cynnydd yng nghyflogau Aelodau Cynulliad Cymru

	<i>Gwirioneddol (£)</i>	<i>Cynnydd %</i>
2012	53,852	
2013	53,852	0
2014	53,852	0
2015	53,852	0
2016	54,391	1.0
2017	64,000	17.7
2018	65,344	2.1
2019	67,649	3.5

e. Dadansoddiad o'r cynnydd yng nghyflogau Aelodau Seneddol

	<i>Gwirioneddol (£)</i>	<i>% y cynnydd</i>
2012	65,738	
2013	66,396	1.0
2014	67,060	1.0
2015	74,000	10.3
2016	74,962	1.3
2017	76,011	1.4
2018	77,379	1.8
2019	79,468	2.7


F. Y lluosydd i drosi'r cyflog wythnosol yn gyflog blyneddol yw 52.0152.


**CYFEIRIADAU:**

1. Y Cyflog Byw Cenedlaethol: <https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates>
2. Cyflog canolrifol Cymru'r ASHE <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year>
3. RPI: <http://www.swanlowpark.co.uk/retail-price-index>
4. CPI: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/timeseries/d7g7/mm23>
5. NJC: <https://www.unison.org.uk/content/uploads/2018/08/New-NJC-Pay-Spine-2018-2019.pdf>
6. IPSA: <https://www.theipsa.org.uk/publications/consultations/review-of-mps-pay-and-pensions/>
7. Y Bwrdd Taliadau Annibynnol: <https://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=375>

*Stephen Mulholland*

*17 Tachwedd 2019*





## **ATODIAD 1**

### **Aelodau yn Optio Allan o Daliadau 2017-18**

Enw'r Awdurdod	Nifer y Cynghorwyr a oedd yn dewis ildio eu cyflog sylfaenol (cyfanswm yn yr Awdurdod)	Ildio Uwch-gyflogau
Blaenau Gwent	8 (42)	5
Pen-y-bont ar Ogwr	0 (81)	0
Caerffili	5 (94)	1
Caerdydd	0 (108)	0
Caerfyrddin	0 (104)	0
Ceredigion	0 (52)	2
Conwy	1 (59)	0
Sir Ddinbych	0 (64)	0
Sir y Fflint	0 (89)	0
Gwynedd	0 (76)	0
Ynys Môn	0 (38)	2
Merthyr	22 (51)	23
Trefynwy	0 (59)	0
Castell-nedd Port Talbot	0 (65)	0
Casnewydd	0 (50)	0
Sir Benfro	0 (79)	0
Powys	0 (105)	0
Rhondda Cynon Taf	42 (105)	26
Abertawe	0 (73)	0
Torfaen	33 (65)	27
Bro Morgannwg	0 (71)	0
Wrecsam	6 (73)	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>117 (1,603)</b>	<b>86</b>

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ymchwil a gasglwyd o'r datganiad o daliadau a gafwyd (colofn optio i ildio) o bob Awdurdod Lleol ar gyfer y flwyddyn 2017 – 2018.

Efallai fod y ffigurau hyn yn cynnwys aelodau a oedd wedi gadael y cyngor hanner ffordd drwy'r flwyddyn.